

Image not found or type unknown

Plant sy'n derbyn gofal

Dysgwch fwy am ein gwaith ni i helpu gwella bywydau plant sy'n derbyn gofal neu sy' wedi profi gofal

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 April 2019

Diweddariad olaf: 27 January 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/plant-syn-derbyn-gofal> am y fersiwn diweddaraf.

Mae gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal neu wedi profi gofal yn un o'n tri maes blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gwelliant yng Nghymru

Pwy yw plant sy'n derbyn gofal?

Dyw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ddim yn byw gyda'u rhieni, naill ai dros dro neu'n barhaol, oherwydd am sawl rheswm dydyn nhw ddim yn gallu gofalu amdanynt yn ddiogel.

Ar 31 Mawrth 2018, bu 6000 o blant yng Nghymru yn derbyn gofal oddi cartref, gyda'r rhan fwyaf yn byw gyda:

- theulu estynedig neu ffrindiau
- gofalwyr maeth
- mewn gofal preswyl i blant (gan gynnwys ysgol breswyl)
- mabwysiadwyr
- yn byw yn annibynnol.

Mae nifer ohonynt yn profi symud cartref ([roedd 10 y cant wedi byw mewn tri chartref neu fwy yn 2016/17](#)), yn aml yn bell oddi cartref.

Ar y cyfan mae plant yn derbyn gofal oherwydd cael eu camdrin, profi trawma a/neu gael eu hesgeuluso. Mae angen gofal ansawdd uchel arnynt, a'r help priodol ar yr amser priodol. Rydym yn gwybod bod plant ar eu gorau pan fo ganddynt berthnasoedd cyson, sefydlog ac maen nhw'n byw mewn cartref diogel. Felly rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r bobl sy'n gofalu am y plant hyn.

Rydym yn gwybod bod rhaid i ni wella gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n profi gofal, gan gynnwys eu cefnogi i fod yn gorfforol a meddyliol iach, i

gyrraedd eu nodau, a defnyddio'r iaith Gymraeg os ydyn nhw'n dewis.

Adnodd gweithwyr gofal preswyl i blant

Adnodd gweithwyr gofal preswyl i blant

Adnodd ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant sy'n cefnogi ymarfer da drwy roi mynediad i wybodaeth hanfodol, astudiaethau achos, data, ac ymchwil.

Sut rydyn ni'n helpu gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal?

Rydyn ni'n gweithio gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar wella canlyniadau i blant i:

- ostwng yn ddiogel y nifer o blant sydd angen gofal arnynt
- cael nifer ddigonol o leoliadau ansawdd uchel
- cefnogi plant i gael y teithiau gorau posibl drwy ofal ac i ddatblygu'n oedolion
- datblygu gweithlu cynaliadwy ac ymarfer proffesiynol da i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Rydym yn gweithio gyda darparwyr gofal preswyl i blant i'w cefnogi nhw i ddatblygu eu gweithwyr a gwella ansawdd y gofal i blant sy'n byw mewn cartrefi preswyl.

Rhaglen gwella canlyniadau i blant

Dysgwch fwy am waith a gweithgareddau yng Nghymru i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal neu sydd ar ymyl gofal.

Rydym hefyd yn cofrestru gweithwyr a rheolwyr mewn cartrefi plant a gallwch [chwilio ein cofrestr](#) i ddysgu mwy amdanynt.

Mae rhai o'n gwaith i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys:

- datblygu [adnoddau dysgu am ddiogelu](#)
- datblygu cymwysterau i sicrhau bod y gweithlu plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel a chymwys i ymarfer
- lansio ymgyrch recriwtio ym Mawrth 2019, gan cynnwys pobl sy'n cefnogi plant sy'n byw mewn gofal preswyl i blant a gofal maeth
- [mapio ymchwil am y gwaith mae pobl eisoes yn ei wneud i gefnogi plant sy' wedi profi gofal](#), i astudio ymarfer da mewn gofal plant ledled Cymru ac i edrych ar sut y gallem rannu'r ddysg hon gyda'n gweithlu.

Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel

Comisiynom ni adroddiad ymchwil gan CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n edrych ar brofiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel yng Nghymru, ynghyd â fersiwn cryno o'r adroddiad. Clywodd yr adroddiad hwn yn uniongyrchol wrth blant a phobl ifanc am eu profiadau, a gwnaeth nifer o argymhellion i wella'r system o lety diogel.

[Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel - Fersiwn cryno](#)

[Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel](#)

Gweld trawsgrifiad

00:07

Mae llawer o bobl ifanc sy'n mynd i ofal yn y pen draw wedi profi bywydau llawn helynt.

00:13

Yn aml, maen nhw wedi cael eu camdrin neu eu hesgeuluso,

00:17

sy'n golygu eu bod nhw mewn perygl o ddioddef camfanteisio,

00:21

camddefnyddio sylweddau, hunan-niweidio, a chael anhawsterau iechyd meddwl.

00:27

Pan maen nhw'n dod i ofal, i rai dyw'r cartrefi preswyl maeth ddim yn ddigon.

00:34

Mae'r bobl ifanc 'ma yn aml yn symud o leoliad i leoliad nes iddi ymddangos

00:38

Mai dim ond llety diogel all roi'r awyrgylch diogel sydd ei angen arnynt.

00:45

Rydyn ni'n treulio amser yn siarad â'r bobl ifanc a'u gweithwyr cymdeithasol,

00:50

Gan drafod sut mae hi i fyw mewn llety diogel.

00:53

Roedd pobun yn cael cyfarfodydd ac yn gwneud penderfyniadau am le o'n i yn fy mywyd

00:59

Ac roedd hi'n teimlo fel nad o'n i'n cael fy nghynwys mewn dim ohono fe.

01:02

Doedd neb wedi rhoi rhybudd i fi mod i'n mynd i lety diogel

01:06

Wyddwn i ddim byd amdani. Dyma weithiwr cymdeithasol yn cyrraedd ac yn siarad â fi amdani

01:13

Wedyn yn sydyn daeth y dynion 'ma i mewn tu ôl i fi

01:16

Ac yn fy nghodi a fy nhaflu fi i'r fan ac o'n i ddim yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen.

01:23

Meddyliais i mod i wedi cael fy herwgipio. Roedd mor frawychus ac yn ofnadwy.

01:30

Mae sawl person ifanc yn disgrifio profiadau gwael o lety diogel

01:34

Ac yn cael problemau gyda phethau fel cael eu cadw dan glo a cael eu rhwystro'n gorfforol

01:40

Bydden nhw'n eich rhoi mewn stafell wag gyda dim byd ynnddi. Mynd â'r matres, popeth

01:48

Ac bydd y stafell molchi wastad dan glo. Byddai'r drws wastad dan glo

01:54

Nes i chi orfod piso. Ces i fy llusgo lawr y corridor. Roedd ganddo

02:02

ddwylo enfawr hefyd. Roedd ei fysedd yn fy llygaid wrth i fi gael fy

02:05

Llusgo lawr y corridor. O'n i'n methu gweld dim. Yn llythrennol. Roedd hi'n afiaich.

02:09

Dwi ddim yn meddwl dylai fe fod wedi gwneud hynny.

02:12

I'r gwrthwyneb mae cartrefi mwy cartrefol yn bodoli

02:17

Ac roedd y bobl oedd wedi aros yno'n cael bywyd yn haws

02:22

O'n i'n hoff iawn o'r llety diogel es i iddo. Doedd hi ddim yn droseddol

02:28

Roedd hi'n llesiant i gyd ac roeddyn nhw'n neis iawn ac yn fy neall fi'n fwy

02:33

Pêl-droed, y gampfa, coginio - mae ganddynt stafell gerddoriaeth yno gyda chyfrifiaduron Apple Mac

02:39

Ac offerynnau ac ati. Pethau fel 'na. Dwi'n teimlo'n well ynof fi fy hunan

02:44

Ers i fi fod yma - dwi ddim yn cymryd cyffuriau, dim yn hongian o gwmpas gyda'r un bobl

02:48

Ers i fi fod yno.

02:51

Er hynny, dim ond ychydig sy'n derbyn yr help sydd ei eisiau arnynt ar gyfer

02:55

Problemau ymddygiad, emosiynol a iechyd meddwl.

02:59

Wrth adael llety diogel, mae pobl ifanc yn dilyn llwybrau gwahanol

03:04

Ychydig dros draean o'r bobl ifanc 'ma setlodd mewn lleoliadau newydd ac yn gwneud yn dda

03:11

Gwnaeth y gweddill yn wael. Cafodd nifer problemau fel hunan-niweidio a mynd ar goll

03:20

Ac aeth nifer nôl i lety diogel.

03:22

Mae presenoldeb camfanteisio yn ogystal â iechyd meddwl gwael, yn ogystal ag esgeulustod

03:27

Mae hynny'n arwain at achosion cynyddol o ymddygiad gan plentyn a all olgyu eu bod eisiau cael eu dal yn ddiogel.

03:32

a all olgyu eu bod eisiau cael eu dal yn ddiogel. Mae astudiaethau'n dangos hyn. Dwi'n teimlo bod eisiau gweithwr cymdeithasol arnon ni

03:37

Sy wedi'i hyfforddi'n glinigol yn ogystal â'r llwybr cyffredin. Ond dyna beth dwi eisiau

03:42

Brwydro amdano. Dyna beth dwi'n brwydro amdano nawr a beth hoffwn i weld.

03:48

Mae canlyniadau positif i'w weld i lawr i ansawdd lleoliadau'r person ifanc,

03:54

Perthnasau cyson gydag oedolion allweddol a mynediad at gymorth iechyd meddwl digonol

04:00

Yn yr achosion hyn, cafodd lleoliadau eu cadw, a pharhaodd pobl ifanc

04:06

I wneud cynnydd positif ac hyd yn oed yn dangos diddordeb mewn cynllunio eu gyrfa

04:12

Rhaid gweithredu i alluogi'r cynnydd positif i'n pobl ifanc i gyd.

Cynhadledd gofal preswyl i blant, mis Chwefror 2020

Pwrpas y gynhadledd oedd herio'r canfyddiad negyddol bod gofal preswyl i blant yn gyrchfan olaf, ac i rannu arfer da ar draws y sector a dathlu llwyddiannau gofal preswyl i blant.

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).